ihcc
International Health Coordination Centre
Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

# ADRODDIAD CYNNYDD IHCC 2018-22









**Gweithio tuag at GIG yng Nghymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, yn wydn ac yn ffyniannus**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Awduron

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddatblygu gan y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC), Is-adran Iechyd Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru: Liz Green, Mariana Dyakova, Laura Holt a; Dr Kit Chalmers, yr Ymddiriedolaeth Addysg Iechyd Trofannol (THET).

## Diolchiadau

Diolch yn arbennig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gofal Iechyd Digidol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phartneriaeth Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd Malawi-Cymru am ddarparu a chyfrannu at yr astudiaethau achos.

Diolch yn fawr i'r Athro Mark A Bellis, cyn Gyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol – Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac i Dr Gill Richardson, cyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol – Cyfarwyddiaeth Canolfannau Cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, a Lauren Couzens, Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu cefnogaeth ar gyfer yr adroddiad, gwaith y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd a gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

**ISBN 978-1-83766-152-7**

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


## Ynglŷn Â'r Adroddiad Hwn 2
## Crynodeb Gweithredol 3
## Cyflwyniad 5
## Adran 1: Sylfeini, Cynlluniau a Chynnydd 6

Cynlluniau a Chynnydd IHCC 7
Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol: Seremoni Ailymrwymo a Phecyn Cymorth Siarter 8

## Adran 2: Gweithgareddau ar draws GIG Cymru 9

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd Y Byd (WHO CC) Iechyd Cyhoeddus Cymru 9
Nursing Now 10
Adolygiadau Gweithgarwch Rhyngwladol Llywodraeth Cymru 11
Cydweithrediad WAST ag Indonesia 12
Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica 13
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Talk© Offeryn Dadfriffio Clinigol 15
Partneriaeth Endosgopi Powys-Bangladesh 16
Iechyd a Gofal Digidol Cymru: Cefnogaeth TG Yn Lesotho 16
Gweithgarwch Ar Draws Cymru: Partneriaeth Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd Malawi-Cymru 18
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Cynllun "Cyfeillio" Arweinyddiaeth Nyrsio 19
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Cyswllt Iechyd Betsi-Kenya 20
E-ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang Ar Gyfer Y Gig Yng Nghymru 21
Pecyn Cymorth Datblygu Cynaliadwy 22
Diweddariad Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru 23
Gweithredu'r Siarter: Gwerthuso Cynnydd 23
Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI) 26
Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol COVID-19 27
Brexit: Monitro a Rhannu Datblygiadau 27

## Adran 3: Casgliadau a'r Dyfodol 28

Cefnogi Gweithredu Argymhellion Yr Adroddiadau Gweithgarwch Rhyngwladol 28
Creu Grw^p Gweithgareddau Iechyd Rhyngwladol Y GIG 28
Paratoi'r Tir Ar Gyfer Dull Newydd at Iechyd Rhyngwladol Yng Nghymru 29
Ymgysylltu Â Sefydliadau'r GIG i Godi Proffil Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol 29
Gweithredu Argymhellion Gwerthusiad Gweithredu'r Siarter 29

## Sylwadau I Gloi 30
## Cyfeiriadau 31

# Ynglŷn Â'r Adroddiad Hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd y Ganolfan Cydlynu Iechyd Rhyngwladol (IHCC) o ran llywio a galluogi gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru (y Siarter) ar draws y GIG dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o waith partneriaeth iechyd rhyngwladol ar draws y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG. Mae'r adroddiad yn amlygu cynlluniau a dyheadau'r IHCC ar gyfer y dyfodol, o ran cefnogi GIG iachach, mwy cyfartal, sy'n gyfrifol yn fyd-eang, yn wydn a llewyrchus yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn amlygu rôl yr IHCC, ei lwyddiannau, ffyrdd o weithio, strwythurau a gweithgareddau cydweithredol; ac yn amlinellu esblygiad yr IHCC mewn perthynas â datblygiadau byd-eang, y DU, cenedlaethol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys heriau a chyfleoedd fel ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ('Brexit'), pandemig COVID-19 a'r argyfwng 'costau byw'. Mae'n dangos yr offer a ddefnyddir i alluogi dysgu ar y cyd, hwyluso synergeddau ar draws y GIG a thraws-sector, a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i iechyd a llesiant pobl Cymru a thu hwnt.

**Mae corff yr adroddiad wedi'i strwythuro'n dair adran:**

1. **Sylfeini, cynlluniau a chynnydd:** mae hwn yn disgrifio'r IHCC, y Siarter, sy'n ganolog i'w waith, a'i gysylltiadau ar draws y GIG. Mae'n cynnwys crynodeb o'r cynlluniau a'r dyheadau a fynegwyd yn yr Adroddiad Cynnydd diwethaf yn 2015-17, a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnal i gyflawni'r rhain. Un cyflawniad mawr fu datblygu Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter, a ryddhawyd yn 2019 ac a ddisgrifiwyd ynghyd â Seremoni Ailymrwymo'r Siarter, a oedd yn nodi pumed pen-blwydd y Siarter y flwyddyn honno.
2. **Gweithgareddau ar draws GIG Cymru:** mae'r adran hon yn dangos rhai o'r gweithgareddau iechyd rhyngwladol niferus y mae sefydliadau GIG Cymru wedi'u cynnal ers 2018. Mae'r rhain wedi'u mapio i bedair sylfaen graidd y Siarter, er bod llawer yn dangos arfer da mewn mwy nag un o'r rhain. Cynrychiolir wyth sefydliad unigol, yn ogystal â gweithgareddau ar draws Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mae crynodeb o Werthusiad Cynnydd Gweithredu'r Siarter wedi'i gynnwys.
3. **Casgliadau ac edrych ymlaen:** mae hwn yn nodi'r uchelgeisiau ar gyfer yr IHCC dros y ddwy flynedd nesaf, yn seiliedig ar asesiad o heriau a llwyddiannau'r gorffennol. Mae'r rhain yn dangos sut mae'r IHCC yn ceisio ychwanegu gwerth at y gweithgareddau rhyngwladol sy'n digwydd ar draws GIG Cymru, a chefnogi iechyd byd-eang a phartneriaethau rhyngwladol er budd poblogaethau lleol a byd-eang trwy ddysgu, rhannu a chydweithio.

Mae'r adroddiad yn cynnwys Crynodeb Gweithredol, trosolwg o weithgarwch iechyd rhyngwladol o 2018-2022, ac yn rhoi rhai awgrymiadau ar gyfer y dyfodol.

### Cynulleidfa darged

Mae'r adroddiad wedi'i anelu at ystod eang o randdeiliaid sy'n ymwneud ag iechyd rhyngwladol a byd-eang, ac sydd â diddordeb ynddo, gan gynnwys o'r GIG (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG), cyrff cyhoeddus perthnasol eraill, Llywodraeth Cymru, sefydliadau a grwpiau partner yn y DU (Pedair Gwlad), a chyrff trydydd sector.

# Crynodeb Gweithredol

Wedi'i sefydlu yn 2013, mae Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd Cymru (IHCC) wedi'i lleoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHOCC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio gweithgareddau'r IHCC ei hun, a gweithgarwch iechyd rhyngwladol ehangach GIG Cymru rhwng 2018-22. Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod cythryblus i systemau iechyd a'r gweithlu iechyd o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws ( COVID-19), ond mae'r adroddiad yn dangos cydweithio rhyngwladol sylweddol er gwaethaf hyn. Mae'r enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn dangos yn glir fudd cydweithredu iechyd byd-eang, gan gynnwys yn ystod argyfyngau.

Mae'r IHCC wedi parhau i esblygu a gwneud cynnydd er gwaethaf aflonyddwch y pandemig ac atal ei waith yn ystod y cyfnod hwn. Mae ei waith wedi'i ganoli ar y 'Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol' (y Siarter) yng Nghymru, a chynhaliwyd seremoni i ailymrwymo'r Siarter yn 2019 i nodi ei phumed pen-blwydd. Gwelodd hyn holl sefydliadau GIG Cymru yn adnewyddu eu haddewid i roi'r Siarter ar waith, ac mae Pecyn Cymorth Gweithredu wedi'i ddatblygu i gefnogi eu hymdrechion. Mae cynnydd ar weithredu'r Siarter wedi'i werthuso, gyda chryfderau clir a meysydd i'w gwella yn dod i'r amlwg a fydd yn arwain ymdrechion i ysgogi ymgysylltiad rhyngwladol ar draws y GIG yn ystod adferiad o bandemig COVID-19. Ym mis Mawrth 2018, dynodwyd Cyfarwyddiaeth Polisi a Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ganolfan Gydweithredol (CC) Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, gan ddod â chysylltiadau rhyngwladol newydd a chryfach, ac mae e-ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'i ddatblygu ac ar gael i holl gydweithwyr y GIG a gweithlu cyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys ledled y DU.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno enghreifftiau o waith cydweithredol rhyngwladol gan wyth Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn ogystal â dau sefydliad ar draws Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gweithgareddau'n amrywiol ac yn cynnwys partneriaethau strategol, ymchwil glinigol, darparu gwasanaethau a gweithgareddau gwirfoddol, a gynhelir ar draws pedwar cyfandir. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:


- Mewnbwn i lywio ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19, gan ddefnyddio adroddiadau rheolaidd Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol. Mae'r rhain yn barhaus, ac maent bellach yn edrych yn ehangach ar flaenoriaethau iechyd y cyhoedd a materion/bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.
- Partneriaeth glinigol ac academaidd gydag Indonesia i gefnogi datblygiad gwasanaeth ambiwlans Indonesia, a ariennir trwy grant ymchwil y DU. Mae'r bartneriaeth wedi datblygu modelau mathemategol i arwain datblygiadau ac wedi darparu hyfforddiant parafeddygaeth glinigol.
- Cydweithrediad fferylliaeth Cymru gyfan gyda Malawi i wella stiwardiaeth gwrthficrobaidd a lleihau ymwrthedd gwrthficrobaidd, a ariennir gan Gymorth Datblygu Swyddogol y DU. Datblygwyd pecyn cymorth a hyfforddiant i wella arfer, ac ymgysylltodd y bartneriaeth â chyrff cenedlaethol i sicrhau aliniad â strategaethau iechyd ehangach.
- Prosiect ymchwil i hyrwyddo defnydd ac asesu effaith offeryn dadfriffio ar gyfer timau clinigol. Roedd hyn mewn cydweithrediad â sefydliadau yn Sbaen a Norwy ac fe'i ariannwyd gan grant ymchwil Ewropeaidd. Defnyddiwyd yr offeryn i gefnogi clinigwyr yn ystod y pandemig ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio mewn ugain o wledydd ledled y byd.
- Cyswllt rhwng gogledd Cymru a Kenya sydd, wedi'i arwain gan asesiad o anghenion, wedi datblygu system adrodd gwyliadwriaeth yn seiliedig ar ddigwyddiadau cymunedol a hyfforddiant, a ariennir gan raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru. Mae dros 60 o Wirfoddolwyr Iechyd Cymunedol wedi cael eu hyfforddi ac yn awr yn adrodd am bryderon yn uniongyrchol i'r tîm iechyd cyhoeddus ardal.

- Dau adroddiad a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn archwilio gweithgarwch iechyd rhyngwladol Cymru, gydag argymhellion i gryfhau hyn. Mae Grŵp Llywio wedi ystyried yr argymhellion ac mae cynlluniau i roi newid ar waith.

Nodwedd drawiadol o lawer o'r gwaith hwn yw ei fod wedi parhau – neu wedi dechrau mewn rhai achosion – yng nghanol pwysau'r pandemig COVID-19. Mae hyn yn dangos gwerth cydweithio rhyngwladol o'r fath a'u bod wedi dod â budd i'r rhai a gymerodd ran.

Gan fod Cymru bellach yng nghyfnod adferiad y pandemig, mae'r IHCC wedi ymrwymo i gefnogi, cryfhau a hyrwyddo gweithgarwch iechyd rhyngwladol a byd-eang. Mae WHOCC Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i ailddynodi am bedair blynedd o 2022, gan ddarparu cefnogaeth gref a chysylltiadau â Sefydliad Iechyd y Byd, ei swyddfeydd a'i rwydweithiau.

Mae'r adroddiad yn cloi gyda nodau'r IHCC ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, sy'n cynnwys creu Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol GIG newydd, ymgysylltu ar draws y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i barhau i gefnogi gweithrediad y Siarter gyda dealltwriaeth o'r cyd-destun presennol, ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner i fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiadau diweddar ac effaith datblygiadau byd-eang, y DU a chenedlaethol. Gall arweinyddiaeth a chydweithrediad yr IHCC, a ategir gan uchelgeisiau a pholisïau allanol a blaengar Cymru, ganiatáu i gydweithrediadau byd-eang a phartneriaethau rhyngwladol ar draws GIG Cymru dyfu, gan gryfhau systemau iechyd, a helpu i ddiogelu, hyrwyddo a gwella iechyd a llesiant y boblogaeth gartref ac ar draws y byd.



# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn adroddiad cynnydd 2015-17 yr IHCC (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2017). Mae'r cyfnod hwy o amser a gwmpesir yn adlewyrchu'r heriau mewn perthynas ag ailgyfeirio gwaith a symud staff oherwydd y pandemig COVID-19. Mae'r IHCC bellach yn bodoli mewn cyd-destun gwahanol iawn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Bu newidiadau sefydliadol, gan ailstrwythuro Iechyd Cyhoeddus Cymru; ac mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'i dynodi'n WHOCC sydd bellach yn gartref i'r IHCC. Roedd rhai heriau, fel Brexit, i'w disgwyl ond gydag effeithiau anrhagweladwy. Roedd eraill nad oeddent wedi'u eraill: er bod pandemig wedi'i ragweld ers blynyddoedd, mae effaith eang COVID-19 wedi bod yn ddramatig ac yn hirhoedlog.

Mae'r newidiadau hyn wedi herio pobl, cymunedau a'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru a'r byd, gan ddod â safbwyntiau newydd ar iechyd, anghydraddoldeb a blaenoriaethau, a phwys newydd i waith yr IHCC. Ers ei sefydlu yn 2013, mae'r IHCC wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer gwaith rhyngwladol cysylltiedig ag iechyd ar draws y GIG yng Nghymru: canolbwynt ar gyfer rhannu ac adeiladu ar ragoriaeth, arbenigedd, angerdd ac ymrwymiad cymuned iechyd Cymru. Mae gwaith rhyngwladol y gymuned hon wedi parhau drwy'r holl newidiadau a heriau hyn: weithiau mewn ffyrdd gwahanol neu gyda ffocws gwahanol, ond bob amser gyda'r nod o wella iechyd gartref a thramor trwy gysylltiadau rhyngwladol, dysgu gan eraill a rhannu ag eraill.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno enghreifftiau o'r arferion a'r gweithgareddau cadarnhaol sydd wedi digwydd ar draws GIG Cymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf, a'r cyfleoedd a'r heriau y mae'r rhain yn eu hamlygu i'r IHCC. Nid yw cenhadaeth ac amcanion yr IHCC wedi newid: hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhyngwladol a meithrin partneriaethau; gwneud y mwyaf o'r enillion posibl a'r effaith polisi i Gymru a'n rhanddeiliaid; a lleihau dyblygu ymdrech ac adnoddau. Mae'r gwaith wedi parhau i esblygu a pharhau yn ystod y pedair blynedd hyn er gwaethaf yr heriau.

# Adran 1: Sylfeini, Cynlluniau a Chynnydd

Mae'r rhan fwyaf o waith yr IHCC wedi'i ganoli ar hwyluso a chefnogi gweithrediad y Siarter: dogfen arfer da unigryw a gynhyrchwyd yn 2014, y mae holl Fyrddau Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi ymrwymo iddi a'i llofnodi. (Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd, 2014). Mae'r IHCC yn elwa o gael ei hymgorfforі yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddod â hi o dan ymbarél Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Dyakova, Couzens a Bellis, 2017), a dod â chysylltiadau rhyngwladol eang gan gynnwys y rhai a sefydlwyd drwy'r WHOCC.

**Mae'r Siarter yn gosod safonau ac yn darparu canllawiau ymarferol ar gyfer sefydlu a chynnal partneriaethau iechyd rhyngwladol, yn seiliedig ar bedair carreg sylfaen:**

- **Cyfrifoldebau sefydliadol:** gan gydnabod bod ymgysylltiad ac ymrwymiad sefydliadol cryf yn hanfodol.
- **Gweithio mewn partneriaeth cilyddol:** yn seiliedig ar gydweithio, cydraddoldeb, parch y naill at y llall a budd y ddwy ochr.
- **Arfer da:** chwilio am dystiolaeth, dathlu canlyniadau cadarnhaol a dysgu o anawsterau.
- **Llywodraethu cadarn:** gydag amcanion a chyfrifoldebau clir ar gyfer pawb dan sylw.

Mae llofnod sefydliadau GIG Cymru yn nodi eu bod yn cydnabod manteision ymgysylltu a gweithio byd-eang a'u bwriad i wneud hyn yn foesegol, yn fuddiol i'r ddwy ochr ac yn effeithiol. Un o swyddogaethau craidd yr IHCC fu cynnull Grŵp Gweithredu'r Siarter, gan ddod â chynrychiolwyr pob llofnodwr a sefydliad llofnodol cyswllt at ei gilydd, i rannu gwybodaeth a phrofiadau, ac i gynllunio gweithgareddau ategol.

Daeth yr adroddiad cynnydd diwethaf i ben gyda chynlluniau i gryfhau gwaith yr IHCC, a gweithgarwch iechyd rhyngwladol Cymru yn fwy cyffredinol. Mae Ffigur 1 yn cyflwyno'r cynlluniau hyn, ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd tuag atynt. Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, er gwaethaf heriau diweddar.

# Ffigur 1. Cynlluniau a Chynnydd IHCC

**Cyhoeddi Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter Cymru Gyfan**

Cyhoeddwyd hwn ym mis Hydref 2019. Mae'n crynhoi gwybodaeth y Siarter a dolenni i ganllawiau ategol, gan sefydliadau allanol a rhai a gynhyrchwyd gan Fyrddau Iechyd Cymru drwy grŵp Gweithredu'r Siarter. Gweler isod am ragor o fanylion.

**Gwerthuso cynnydd o ran Gweithredu'r Siarter**

Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2020 ond cafodd ei atal yn ystod pandemig COVID-19. Er gwaethaf hyn, cwblhawyd y gwerthusiad yn 2021: gweler yr adran Llywodraethu Cadarn am y canlyniadau.

**Datblygu hyfforddiant dinasyddiaeth fyd-eang ymhellach**

Gan adeiladu ar gwrs hyfforddi peilot blaenorol, datblygwyd modiwl dysgu ar-lein. Fe'i lansiwyd ar Dysgu@Cymru, llwyfan e-ddysgu GIG Cymru gyfan, ym mis Tachwedd 2021. Manylion pellach yn yr adran Arfer Da.

**Cydgrynhoi synergeddau a llywodraethu i brif ffrydio ymgysylltu rhyngwladol ar draws y GIG**

Amharwyd ar y gweithgarwch hwn gan bwysau'r pandemig COVID-19. Mae cyfleoedd newydd yn codi a gall y GIG adeiladu ar y rhain. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adrannau Cyfrifoldebau Sefydliadol ac Edrych i'r Dyfodol.

**Cryfhau ein partneriaethau a chwilio am gyfleoedd newydd i ddysgu, hyrwyddo Cymru, a chynyddu ei heffaith ar yr agenda iechyd byd-eang.**

Mae'r IHCC wedi gwneud cynnydd da, gyda dynodi ac ailddynodi Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd, a chyhoeddi Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru. Mwy am y rhain isod.

**Cynnal cynnydd yr IHCC a chyflawni disgwyliadau.**

Yn 2019 cafwyd pen-blwydd pum mlynedd y Siarter, a nodwyd gan seremoni ailymrwymo a fynychwyd gan yr holl lofnodwyr a chynrychiolwyr lefel uchel, gan gynnwys Gweinidog Iechyd Cymru. Er gwaethaf arafu anochel o ran gweithgarwch yr IHCC a gweithgarwch arall, mae'r cyflawniadau uchod ac enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad yn dangos ymrwymiad a llwyddiant yr IHCC wrth wneud cynnydd.

# Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol: Seremoni Ailymrwymo a Phecyn Cymorth Siarter

Ers ei lansio ym mis Tachwedd 2014, mae'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Rhyngwladol wedi bod yn rhaglen waith flaenllaw ar gyfer yr IHCC. Fe'i datblygwyd gan yr IHCC mewn cydweithrediad â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a'i nod yw sicrhau bod egwyddorion a gwerthoedd y GIG yn cael eu hadlewyrchu yn ein gweithgarwch iechyd rhyngwladol. Mae hyn yn cryfhau gwaith Cymru i ddatblygu partneriaethau cilyddol cynaliadwy, yn seiliedig ar degwch ac er mwyn sicrhau buddiannau diriaethol, cydfuddiannol, a bywydau iach, ffyniannus i bawb o fewn a thu hwnt i ffiniau Cymru.

Roedd 2019 yn nodi pumed pen-blwydd lansio'r Siarter, ac i ddathlu hyn cynhaliwyd seremoni ailymrwymo fel rhan o Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru, yng Nghasnewydd. Ymunodd cynrychiolwyr o'r holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, eu sefydliadau partner, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, y Prif Swyddog Meddygol, Frank Atherton, a Phrif Weithredwr y GIG, Dr Andrew Goodall â'r IHCC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i sefydliadau'r GIG ailymrwymo i'w haddewid i egwyddorion y Siarter ac i ddathlu'r cyfan yr oedd y Siarter wedi'i gyflawni. Daeth hefyd â llofnodwyr newydd o'r GIG ehangach a'r trydydd sector, ynghyd â lansio Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter.

***"Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid tramor ers sawl blwyddyn bellach. Mae'r Siarter wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran cryfhau partneriaethau iechyd rhyngwladol a hyrwyddo proffil Cymru ar lwyfan y byd. Mae ailymrwymo i'r Siarter a chreu Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter yn gamau pwysig i sicrhau bod gwaith da yn parhau."***

*Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019*

Datblygwyd Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter i gefnogi gweithrediad y Siarter (Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd, 2019). Fel dogfen ategol i'r Siarter, mae hon yn ganllaw ar sut i sefydlu a chynnal cysylltiadau iechyd rhyngwladol. Mae'n adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ers lansio'r Siarter, gan lunio enghreifftiau o arfer gorau a darparu fframwaith llywodraethu cadarn i gefnogi gweithgarwch iechyd rhyngwladol. Mae'r Pecyn Cymorth wedi'i gynllunio fel "dogfen fyw": bydd yn cael ei ddiweddaru'n barhaus i gynorthwyo llofnodwyr i weithredu egwyddorion y Siarter.



# Adran 2: Gweithgareddau ar draws GIG Cymru

Mae gan GIG Cymru gysylltiadau byd-eang cryf, ac mae'r adran hon yn arddangos enghreifftiau sy'n dangos yr ystod eang o bartneriaethau a gweithgareddau y mae'n eu cefnogi. Mae wedi'i drefnu o amgylch pedair sylfaen graidd y Siarter, ond fe welwch fod llawer o enghreifftiau yn gorgyffwrdd rhwng y rhain.

**Cyfrifoldebau Sefydliadol a Reolir Yn Dda**

***"Mae ymgysylltiad ac ymrwymiad sefydliadol cryf yn hanfodol. Gall hyn gynnwys cymorth ar gyfer absenoldeb arbennig, darparu adnoddau i gefnogi datblygiad partneriaethau iechyd a phrosesau sefydliadol yn adrodd ar lefel weithredol ar Bartneriaethau Iechyd Rhyngwladol."***

## Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd Y Byd (WHO CC) Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ym mis Mawrth 2018, dynodwyd Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHOCC) ar 'Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant' (Iechyd Cyhoeddus Cymru, d). Roedd y dynodiad WHOCC yn adeiladu ar bartneriaeth hirsefydlog gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), gan weithio'n agos gyda Swyddfa Ewropeaidd WHO ar gyfer 'Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Datblygiad' yn Fenis, Yr Eidal (Swyddfa Fenis).

Mae'r WHOCC – y ganolfan gyntaf yn y byd gyda ffocws penodol ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant – yn datblygu, yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth ac offer i gefnogi buddsoddiad mewn gwell iechyd. Nod hyn yw lleihau anghydraddoldebau ac adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn yng Nghymru, Ewrop a'r byd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w hymrwymiadau i Sefydliad Iechyd y Byd.

Ers ei ddynodi, mae'r WHOCC wedi bod yn gyrru datblygu cynaliadwy a hyrwyddo ffyniant i bawb. Mae'n llywio ac yn hyrwyddo polisïau mwy cynaliadwy; yn croesawu egwyddorion hawliau dynol, tegwch a thystiolaeth; ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae ei waith yn cefnogi Sefydliad Iechyd y Byd i weithredu Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (UN, 2015b) (y Nodau Datblygu Cynaliadwy - SDGs (UN, 2015a)) a Thrydedd Raglen Waith Gyffredinol ar Ddeg WHO 2019-2023 (WHO, 2019). Un cyflawniad mawr fu hwyluso Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd. Ymhlith gweithgareddau eraill, mae hyn yn arloesi gyda darparu menter adrodd statws tegwch iechyd arloesol Sefydliad Iechyd y Byd (HESRi) ar lefel genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2020).

Yn genedlaethol, mae'r WHOCC yn cefnogi gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2015), Cymru Iachach: cynllun hir dymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2018) a deddfwriaeth, strategaethau a pholisïau perthnasol eraill, megis Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (Llywodraeth y DU, 2017) a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2021). Wrth wraidd y gwaith hwn mae egwyddorion tegwch, gwerth cymdeithasol, meddwl hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad.

Mae'r WHOCC yn cryfhau cydweithrediadau a phartneriaethau Ewropeaidd a byd-eang Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'r nod o alluogi gweithio traws-sector ac amlddisgyblaethol mwy effeithiol. Mae'n agor cyfleoedd ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac ymchwil, dysgu o'n

profiadau ac arfer da ni ac eraill, a datblygu ein pobl a'n sefydliadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol (IHS) sydd wedi llywio ymateb Cymru i'r pandemig COVID-19 a'r Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd sy'n gysylltiedig â'r ymateb (Iechyd Cyhoeddus Cymru, WHOCC), ac aelodaeth o rwydweithiau fel Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI).

Mae'r WHOCC yn cefnogi ac yn hwyluso buddsoddiad ar gyfer iechyd a llesiant fel sbardun a galluogwr cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a ffyniant i bawb. Yn dilyn pedair blynedd gyntaf lwyddiannus, yn gynnar yn 2022 cafodd WHOCC ei ailddynodi gan Sefydliad Iechyd y Byd ac mae wedi datblygu rhaglen waith barhaus (Bellis a Dyakova, 2022).

## Nursing Now

Lansiwyd ymgyrch fyd-eang Nursing Now yn 2018 a'i chymeradwyo gan Sefydliad Iechyd y Byd a Chyngor Rhyngwladol y Nyrsys (WHO, 2018). Dynododd Sefydliad Iechyd y Byd 2020 yn Flwyddyn y Nyrs a'r Fydwraig a chyhoeddodd yr adroddiad Cyflwr Nyrsio'r Byd cyntaf (WHO, 2020). Roedd Nursing Now yn alwad i weithredu ar lefel leol a byd-eang, gan hyrwyddo cyfleoedd i godi proffil nyrsio ar draws ystod o themâu, megis arfer uwch ac arloesol, gallu ymchwil, a datblygu arweinyddiaeth.



Deilliodd yr ymgyrch o'r adroddiad Effaith Driphlyg (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Iechyd Byd-eang, 2016). Roedd hwn yn dadlau y byddai cryfhau nyrsio yn gwneud cyfraniad mawr at dri o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy: Gwell Iechyd, Tegwch Rhywedd a Datblygiad Economaidd.

Yng Nghymru, bu'r Prif Swyddog Nyrsio ar y pryd, yr Athro Jean White, yn arwain yr ymgyrch i sicrhau bod Cymru'n chwarae ei rhan yn yr ymdrechion byd-eang. Ar ei chais hi, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru grŵp traws-sefydliadol – Nursing Now Cymru Wales (Iechyd Cyhoeddus Cymru, b) – gan sicrhau bod Nursing Now yng Nghymru wedi'i gosod yng nghyd-destun polisi Cymru.

Nod y gwaith hwn oedd meithrin gwytnwch, tosturi ac arweinyddiaeth mewn nyrsio a bydwreigiaeth, a chodi proffil nyrsys a bydwragedd yn rhyngwladol. Mae gan Nursing Now Cymru Wales gynrychiolwyr o bob rhan o GIG Cymru yn ogystal ag arweinwyr nyrsio o Brifysgolion Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, a'r trydydd sector.

**Adrodd ar waith rhyngwladol: effaith y pandemig**

Hyd at 2020, roedd yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth adrodd ar eu gweithgarwch rhyngwladol yn eu Datganiad Ansawdd Blynyddol. Roedd hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar weithgarwch Cymru ac Affrica ac wedi helpu i gynnal proffil y gwaith hwn ac arddangos cyflawniadau'r rhai a gymerodd ran.

Er mwyn helpu sefydliadau i reoli pwysau'r pandemig, ers 2021 mae adroddiadau ansawdd wedi bod yn llai manwl ac yn rhan o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ehangach. Yn anffodus, nid yw'r adroddiadau hyn wedi cynnwys gwaith rhyngwladol, er ein bod yn gwybod bod llawer wedi parhau drwy'r pandemig.

Mae hwn yn gyfle a gollwyd i gydnabod a dathlu'r manteision y mae ymgysylltu byd-eang yn eu rhoi i GIG Cymru.

Mae adroddiad Dathlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru 2021 yn cefnogi ein nodau o godi proffil a statws nyrsio a bydwreigiaeth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol (Grŵp Llywio Nursing Now Cymru/Wales, 2021). Mae'n dangos bod nyrsys a bydwragedd wrth galon timau iechyd, yn chwarae rhan hollbwysig wrth wella a thrawsnewid gwasanaethau iechyd, hybu iechyd, ac atal a lliniaru effaith clefydau. Mae nyrsys a bydwragedd yn sicrhau bod y gofal a ddarperir yn dosturiol, ac o'r safon uchel y dylai pob claf a dinesydd ddisgwyl ei chael.

# Adolygiadau Gweithgarwch Rhyngwladol Llywodraeth Cymru

Yn gynnar yn 2021, comisiynodd llywodraeth Cymru yr Ymddiriedolaeth Addysg Iechyd Trofannol (THET) i gynnal dwy astudiaeth i waith iechyd rhyngwladol yng Nghymru. Roedd un yn canolbwyntio ar bartneriaethau iechyd rhyngwladol Cymru ag Affrica, gan archwilio sut mae'r rhain yn cael eu strwythuro, eu hariannu a'u cefnogi (Chalmers, 2021). Adolygiad Cyflym oedd y llall a oedd yn edrych yn ehangach ar weithgarwch iechyd rhyngwladol ar draws pob sector a chyda phob gwlad (Chalmers ac Okeah, 2021).

Mae'r adroddiadau'n rhoi crynodeb manwl o'r sefydliadau sy'n weithredol yng Nghymru ac yn dangos y brwdfrydedd sylweddol dros y gwaith hwn o fewn pob sector, gan gynnwys y GIG a Llywodraeth Cymru. Maent yn disgrifio'r gwahanol lwybrau y mae gwaith rhyngwladol yn digwydd drwyddynt a'r gwledydd niferus y mae Cymru'n bartneriaid iddynt, ynghyd â ffynonellau cyllid ac adnoddau ategol. Nododd y ddau gryfderau a gwendidau, ac argymell camau gweithredu i gryfhau'r gwaith hwn.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd Dr Kathrin Thomas (Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica) a Dr Kit Chalmers (THET – prif awdur yr adroddiadau) drosolwg o ganfyddiadau'r adroddiadau i Grŵp Gweithredu'r Siarter (CIG) yr IHCC. Daeth yr adroddiadau i'r casgliad nad oedd Cymru'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch iechyd rhyngwladol, oherwydd diffyg strategaeth a chydlyniad cydlynol, a diffyg ffocws ar ofynion byd-eang. Fodd bynnag, mae Cymru wedi bod yn arloeswr wrth ddatblygu strwythurau i gefnogi gwaith iechyd rhyngwladol (fel yr IHCC a'r Siarter) a chafodd ei chydnabod fel enghraifft gadarnhaol gan wledydd eraill y DU, gan ei rhoi mewn sefyllfa dda i symud ymlaen.

### Cymru ac Affrica

Gelwir cynllun Cymru o Blaid Affrica llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2006, bellach yn Gymru **ac** Affrica. Mae hyn yn cynrychioli natur gyfartal a chydweithredol y partneriaethau dan sylw yn well.

### Gweithio Cilyddol Mewn Partneriaeth

***"Mae'n hanfodol cael perthynas gydweithredol rhwng dau barti neu fwy yn seiliedig ar ymddiriedaeth, cydraddoldeb, parch ar y cyd a dealltwriaeth ar gyfer cyflawni nodau penodol er budd y ddwy ochr."***

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r IHCC yn cydnabod manteision ymgysylltu byd-eang, sy'n darparu cyfleoedd i ddenu, datblygu a chadw staff yn GIG Cymru, i ddarparu llwyfan ar gyfer arloesi ar raddfa fyd-eang, ac i hyrwyddo cynhwysiant byd-eang a dinasyddiaeth fyd-eang. Ers mis Tachwedd 2021 mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn aelod o Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i ystyried argymhellion yr adroddiadau a gwneud cynlluniau i fwrw ymlaen â blaenoriaethau. Mae'r gwaith hwn bellach wedi dod i ben, gyda chamau dilynol wedi'u cychwyn megis creu Bwrdd Partneriaeth Iechyd Rhyngwladol dan arweiniad Llywodraeth Cymru y mae'r IHCC yn aelod annatod ohono ynghyd â sefydliadau ac elusennau eraill fel Byrddau Iechyd ac arweinwyr Cymru ac Affrica.



# Cydweithrediad WAST ag Indonesia

Yn 2019, cymerodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ran mewn prosiect cydweithredol rhyngwladol rhwng Ysgol Fathemateg Prifysgol Caerdydd, Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT) ac Ambulans 118 yn Indonesia. Ariannwyd y cydweithrediad gan Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang y DU, a anelir at sefydliadau academaidd, a darparodd WAST gefnogaeth i'r cydweithrediad o ran arbenigedd parafeddygaeth, mewn ymweliad cwmpasu ym mis Chwefror 2020.

Mae Ambulans 118, ynghyd ag Ambulans 119, yn darparu gwasanaeth ambiwlans cyhoeddus cenedlaethol i gefnogi poblogaeth 264 miliwn Indonesia. Yn ogystal â gwasanaethu cleifion â chyflyrau iechyd brys a chyffredinol, mae'n rhaid i'r gwasanaethau ambiwlans ymdopi â thrychinebau naturiol megis daeargrynfeydd a llifogydd, ac yn 2018 yn unig amcangyfrifir bod trychinebau naturiol wedi lladd mwy na 4,000 o bobl ac wedi dadleoli tua 3 miliwn. Mae'r partneriaid cydweithredol yn gweithio tuag at ddatblygu system ymateb brys integredig genedlaethol ond maent yn wynebu llawer o heriau wrth wneud hynny, gan gynnwys yr ardal ddaearyddol enfawr, problemau seilwaith a diffyg cerbydau ymateb brys.



Mae modelau mathemategol wedi'u cynnig i helpu i oresgyn yr heriau sy'n wynebu Ambulans 118, gan ddefnyddio data gweithredol a dadansoddiad sefyllfaol i gynghori ar fecanweithiau ymateb. Nodwyd cyfleoedd i WAST rannu dysgu a chyflwyno hyfforddiant yn yr ymweliad cwmpasu.

Yn anffodus, rhoddodd pandemig COVID-19 stop ar lawer o'r gweithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer cyfnod y cyllid grant ac mae dilyniant wedi bod yn gyfyngedig i bob partner, gyda WAST ac Ambulans 118 yn canolbwyntio ar anghenion cleifion ac argyfwng y pandemig. Cynhaliwyd ymweliad dilynol ag Indonesia ganol mis Medi 2022. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Weinyddiaeth Iechyd, a chynhaliwyd seminar deuddydd gydag addysgu a dysgu ar y cyd ar gyfer carfan fawr o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Jakarta, a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd, WAST a MIT. Mae cynlluniau ychwanegol i rannu maes llafur a chanlyniadau dysgu gydag Ambulans 118, er mwyn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth.

Mae'n amlwg bod llawer i'w ennill o brosiectau cydweithredol rhwng WAST a gwasanaethau gofal iechyd rhyngwladol eraill, o ran datblygu sgiliau, symudedd sefydliadol, hunanfyfyrio a gwella arfer, ac o safbwynt gweithredol wrth weld sut mae sefydliadau eraill yn rheoli ac yn addasu i sefyllfaoedd yn wahanol. Mae edrych ar amrywiannau a rhannu profiadau wrth oresgyn heriau i ymarfer, megis y defnydd o dechnoleg symudol, rheoli argyfwng, a chynllunio ac addasu i anghenion newidiol cleifion, i gyd yn fuddiol i wella ymarfer o fewn y sefydliadau rhyngwladol ac yma yng Nghymru.

Galluogodd ymweliad ymgysylltu Medi 2022 ddatblygiad pellach y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru ac Indonesia, gyda chwmpas a chyfle i'r gefnogaeth y mae wedi'i chynnwys i barhau unwaith y bydd cyllid y prosiect wedi dod i ben.

## Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica

Mae Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (WaAHLN) yn cefnogi Partneriaethau Iechyd a gweithgarwch rhwng Cymru ac Affrica, gan gynnwys grwpiau a leolir yn y GIG ac mewn cymunedau, trwy hwyluso dysgu ar y cyd, rhwydweithio, a darparu arweiniad arbenigol. Mae'n cael ei arwain gan Fwrdd sy'n cynnwys gwirfoddolwyr â phrofiad iechyd a datblygu rhyngwladol ac mae'n sefydliad partner i Hyb Cymru Affrica.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod prysur i WaAHLN, gan ei fod wedi cefnogi partneriaethau sy'n gweithio drwy'r pandemig wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau i gryfhau'r gweithgaredd iechyd byd-eang sy'n digwydd ledled Cymru. Yn bennaf ymhlith y rhain oedd sicrhau comisiwn gan lywodraeth Cymru o ran yr adroddiad yn edrych ar Bartneriaethau Iechyd Cymru gydag Affrica, a gwblhawyd gyda chefnogaeth WaAHLN a THET. Ers hynny mae WaAHLN wedi bod yn rhan o'r Grŵp Llywio a gynullwyd gan lywodraeth Cymru i ystyried sut i weithredu ar argymhellion yr adroddiad ac mae'n edrych ymlaen at barhau i gymryd rhan wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.



Mae WaAHLN wedi cynnal cynhadledd bob blwyddyn gan gynnwys ar anterth y pandemig yn 2020, pan gafodd ei chynnal ar-lein am y tro cyntaf. Denodd cynhadledd 2021 siaradwyr lefel uchel gan gynnwys Prif Swyddog Nyrsio Cymru, Sue Tranka, a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt, yn ogystal â llawer o gynrychiolwyr gan gynnwys partneriaid Affricanaidd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae WaAHLN wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau eraill gan gynnwys:

- Darlith flynyddol Tony Jewell ym mis Rhagfyr 2021, y tro hwn gyda'r Athro Anthony Costello yn trafod yr argyfwng hinsawdd (Costello, 2021).
- "Cydnabod y cyfraniad y mae staff y GIG ar wasgar yn ei wneud i iechyd byd-eang", Digwyddiad Dysgu a Rennir a gadeirir gan yr Ymddiriedolwr Dr Zed Sibanda ac a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â THET, ym mis Mawrth 2022 (Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, 2022b). Cafodd hwn ei gynnull i ystyried ymateb Cymru i adroddiad diweddar THET, Experts in Our Midst, sy'n archwilio'r thema hon (Chisholm, 2021).
- Digwyddiad i hybu cyfranogiad staff y GIG yng nghynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO) llywodraeth Cymru (Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, 2022a). Disgrifiodd cyfranogwyr blaenorol yr ILO eu profiadau, sydd yn amlwg wedi eu hysbrydoli yn eu gyrfaoedd GIG yn ogystal â'u gweithgareddau iechyd byd-eang, ac ymunodd Jon Townley o Lywodraeth Cymru i roi rhagor o fanylion am leoliadau a sut i wneud cais.

Mae wedi bod yn gyfnod o newid i'r Bwrdd hefyd, gan ei fod wedi arallgyfeirio o ran rhyw, ethnigrwydd a chefndir proffesiynol. Ym mis Gorffennaf 2022 ymddiswyddodd Dr Kathrin Thomas fel Cadeirydd ar ôl tair blynedd hynod lwyddiannus a phrysur yn y rôl (ynghyd â chwech fel Ymddiriedolwr), gan drosglwyddo'r awenau i'r Cadeirydd newydd yr Athro Kelechi Nnoaham a'r Is-Gadeirydd Dr Julia Terry. Dymunwn yn dda iddynt wrth iddynt fynd â WaAHLN a'r bartneriaid ymlaen.



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Talk© Offeryn Dadfriffio Clinigol

Rhwng 2017 a 2022 cymerodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (CAVUHB) ran mewn prosiect ymchwil rhyngwladol, a arweiniwyd gan yr Anesthetydd Ymgynghorol Dr Cristina Diaz-Navarro ac a ariannwyd drwy raglen Horizon 2020 y Comisiwn Ewropeaidd. Nod hwn oedd hyrwyddo a gwerthuso gweithrediad offeryn dadfriffio clinigol o'r enw TALK©, sy'n helpu staff i fyfyrio'n ffurfiol a dysgu ar ôl tasg, shifft neu ddigwyddiad critigol penodol.

Datblygodd Dr Diaz-Navarro a chydweithwyr yr offeryn TALK© yn 2014, ar ôl cydnabod yr angen am ganllawiau syml, strwythuredig i alluogi timau i fyfyrio ar ddigwyddiadau clinigol heb fewnbwn gan arbenigwr, neu hyfforddiant arbenigol. Gellir ei ddefnyddio gan bob grŵp staff ac mae'n hyrwyddo cyfathrebu cadarnhaol, parchus a phroffesiynol. Ei nod yw grymuso staff i gymryd perchnogaeth o faterion gyda ffocws ar ddod o hyd i atebion i broblemau a chymryd cyfrifoldeb i roi dysgu ar waith. Yn y pen draw, mae hyn yn gwella cyfathrebu tîm a diogelwch cleifion.

Roedd defnydd cynnar yn CAVUHB yn gadarnhaol: roedd yr offeryn yn helpu staff iau i ofyn cwestiynau a dysgu o ddigwyddiadau, a thimau i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid. Cynhaliwyd yr ymchwil ffurfiol mewn partneriaeth â sefydliadau yn Barcelona, Sbaen, a Stavanger, Norwy, gan ganiatáu asesiad ehangach o'i ddefnyddioldeb a'i effaith. Roedd hyn yn cynnwys cyfnewid aelodau staff amlddisgyblaethol o Gaerdydd ac i Gaerdydd.

Amharodd pandemig  COVID-19 ar y prosiect, gydag ymweliadau cyfnewid wedi'u canslo ac ymchwilwyr yn cael eu tynnu i mewn i'r ymateb brys. Ond fe wnaeth hefyd ysgogi diddordeb yn yr offeryn yn rhyngwladol, wrth i weithwyr gofal iechyd geisio cynnal eu hunain a chydweithwyr trwy brofiadau newydd ac anodd. O ganlyniad, mae TALK© wedi'i gyfieithu i lawer o ieithoedd, gan gynnwys Eidaleg, Ffrangeg a Sbaeneg America Ladin, ac mae'n cael ei defnyddio mewn o leiaf 20 gwlad. Mae'r offeryn wedi'i fabwysiadu ar raddfa fawr yn Norwy a Sbaen ac mae'n cael ei dreialu gan Médecins Sans Frontières fel eu dull dadfriffio o ddewis.

Mae elusen, The TALK Foundation™, wedi'i chreu i sicrhau hirhoedledd y prosiect (TALK Foundation). Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arno, mae'r offeryn a'r deunyddiau hyfforddi cysylltiedig ar gael am ddim i'w llwytho i lawr o'r wefan hon, ac mae cyrsiau hyfforddi wedi'u datblygu sy'n rhad ac am ddim neu am gost isel. Mae'r tîm ymchwil wedi cyhoeddi dwy erthygl, gydag un yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio'r offeryn yn ystod pandemig COVID-19 (Diaz-Navarro et al., 2021; Stafford et al., 2021).

Mae TALK© bellach yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn Adran Achosion Brys, Theatrau Llawdriniaethau ac Uned Gofal Critigol CAVUHB. Mae staff a gymerodd ran mewn ymweliadau cyfnewid wedi elwa'n broffesiynol ac wedi cyfrannu at y sefydliad, gyda rhai yn symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth neu addysg. Mae staff anfeddygol, sydd fel arfer yn cael llai o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, wedi gwerthfawrogi'n arbennig y profiad dysgu a'r ymdeimlad o gydnabyddiaeth y mae hyn wedi eu cynnig iddyn nhw. Mae Dr Diaz-Navarro wedi mwynhau'r cyfle i gydweithio â chydweithwyr ar draws y byd, ac mae gweld bod yr offeryn yn cael ei fabwysiadu'n eang, a'r gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud i unigolion ac i dimau, wedi gwneud y gwaith caled yn werth chweil.



# Partneriaeth Endosgopi Powys-Bangladesh

Yn 2012, rhoddodd Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain grant i grŵp o Gastroenterolegwyr a Llawfeddygon yn Ysbyty Treforys, i gychwyn yr hyfforddiant cyntaf mewn ERCP (endosgopi uwch) ym Mangladesh. Ers hynny, mae'r meddygon wedi ymweld â Bangladesh bob yn ail flwyddyn i barhau â'r gwelliannau mewn hyfforddiant a darpariaeth gwasanaethau endosgopi. Roedd y dysgu'n cynnwys sylweddoli bod angen hyfforddi'r nyrsys endosgopi mewn technegau cynorthwyo endosgopi i sicrhau bod tîm cyfan y gweithlu wedi'i hyfforddi i gyflawni gweithdrefnau mwy cymhleth. Yn 2017, ymwelodd y Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Endosgopi â Dhaka i gyflwyno'r cwrs nyrsys endosgopi cyntaf. Ym mis Chwefror 2019 gofynnwyd iddi baratoi a chyflwyno dau ddiwrnod llawn ychwanegol o addysgu, gan gynorthwyo gydag addysgu'r nyrsys yn ystod hyfforddiant y meddygon ar fodelau anifeiliaid a chynorthwyo'r meddygon i ddysgu colonosgopi.

Mae llwyddiant y gwasanaethau Nyrs Ymgynghorol yn Endosgopi ym Mhowys wedi golygu ein bod wedi gallu cyflogi Endosgopydd Nyrsio Uwch, gan ehangu'r gwasanaeth endosgopi uwch.

**Partneriaeth ryngwladol ar gyfer darparu gwasanaethau**

Mae Canolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe wedi'i chomisiynu fel canolfan losgiadau genedlaethol yn y DU ac mae'n rhan o rwydwaith Ewropeaidd a byd-eang ar gyfer ymateb i losgiadau lle mae cleifion niferus.

Fel rhan o'r trefniadau dwyochrog hyn, mae wedi derbyn cleifion o ddigwyddiadau mawr yn Nwyrain Ewrop a'r Aifft.

*Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Adolygiad Cyflym o Weithgarwch Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru (Chalmers ac Okeah, 2021)*

# Iechyd a Gofal Digidol Cymru: Cefnogaeth TG Yn Lesotho

Yn 2018, tra'n gweithredu yn y sefydliad rhagflaenol, llwyddodd tîm o Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), i ddarparu hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i weithwyr meddygol proffesiynol a'u staff cymorth yn Lesotho, yn unol â'r fframwaith Siarter ar gyfer Partneriaethau Rhyngwladol.

Datblygwyd y prosiect cychwynnol yn dilyn arsylwadau gan weithiwr a dreuliodd amser ar leoliad yn Lesotho. Fe wnaethant nodi bwlch yn sgiliau digidol, yn enwedig sgiliau dadansoddol a thechnoleg gwybodaeth, yr uwch arweinwyr yn y sector iechyd, a chydnabod hefyd eu bod yn ymgymryd â rolau eilaidd yn y gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad, datblygwyd llwybr hyfforddi i uwchsgilio'r uwch arweinwyr i'w galluogi i allu adrodd stori gan ddefnyddio data.

Cyflwynwyd y rownd gyntaf o hyfforddiant ym mis Hydref 2018, a gynlluniwyd i reoli'r bwlch yn sgiliau TGCh y proffesiynau meddygol yn Lesotho. Fe'i cynlluniwyd yn unol â'r arferion gorau a nodir yn y Siarter ac yn dilyn gweithdrefnau GIG Cymru a gymeradwywyd ymlaen llaw o'r pecyn cymorth, i gefnogi'r sefydliadau cynnal yn Lesotho a'r tîm sy'n darparu'r hyfforddiant. Roedd fframwaith y Siarter hefyd yn caniatáu i'r prosiect gael ei ddatblygu a'i weithredu'n gyflymach, gan fod y broses lywodraethu eisoes wedi'i diffinio.

Yn dilyn y rownd gychwynnol o hyfforddiant, cynhaliodd y tîm arolwg dilynol ar effaith ac anghenion hyfforddiant TGCh yn y dyfodol, i gynllunio ar gyfer datblygiadau hyfforddiant yn y dyfodol. Caniataodd y rownd gyntaf hon o hyfforddiant a dadansoddiad dilynol o anghenion

*“Roeddwn i bob amser yn cael trafferth delio ag Excel. Roeddwn bob amser yn meddwl ei fod yn beth anodd a gwnes gymaint â phosibl i osgoi defnyddio Excel yn fy adroddiadau dyddiol, ym mhopeth roeddwn i’n ei wneud yn y gwaith.  Ond ar ôl heddiw, sylweddolais fod fy meddwl yn gymhleth; nid yw Excel bellach yn gymhleth.  Roedd yn rhaid i mi werthfawrogi ei ddefnydd wrth adrodd.”*

*Cyfranogwr hyfforddiant TGCh, Pentrefi Plant SOS, Lesotho*



y tîm i wneud cais am arian grant ychwanegol, tra’n caniatáu amser i’r ysbyty cynnal yn Quthing ymgorffori’r hyfforddiant presennol yn eu fframwaith datblygu lleol.

Byddai cyllid ychwanegol yn galluogi’r tîm i gynnal hyfforddiant yn y dyfodol o fewn Quthing ac i gynnal asesiadau anghenion pellach a chynnal hyfforddiant dilynol ar gyfer mwy o staff ysbyty y tu allan i’r dalgylch cychwynnol.

